



Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Craig Y Deryn

Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Trosolwg

Mae Ysgol Craig y Deryn yn gymuned hapus a gweithgar lle mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn. Maent yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a darperir cyfleoedd gwerthfawr iddynt ddysgu a chwarae gyda'u ffrindiau ar draws yr ysgol, sy'n cyfrannu'n gadarn at yr ymdeimlad cryf o berthyn. Yn ystod gweithgareddau ac amseroedd egwyl a chinio, mae'r disgyblion yn ymddwyn yn rhagorol.

Mae arweinwyr, athrawon a'r staff cymorth yn cydweithio'n effeithiol i gynnal a chefnogi lles y dysgwyr a'u cydweithwyr. Mae staff yn rhoi ystyriaeth dda i syniadau'r disgyblion wrth ddatblygu gweithgareddau, ac yn sicrhau cefnogaeth effeithiol ar gyfer disgyblion sydd angen hwb ychwanegol gyda'u dysgu. Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu agweddau cynhwysol at eraill, er enghraifft wrth ddysgu am brofiadau athletwyr sy'n wynebu heriau corfforol. Gwna'r staff ddefnydd effeithiol o'r amgylchedd allanol i hyrwyddo lles a dysgu'r disgyblion.

Ar fynediad i'r ysgol, mae'r disgyblion yn datblygu annibyniaeth yn dda ac yn dyfalbarhau'n gyson wrth gyflawni gwahanol dasgau. At ei gilydd, mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau cyfoethog sy'n cefnogi'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddatblygu llawer o'u medrau'n llwyddiannus, yn enwedig eu medrau digidol. Mae llawer o ddisgyblion yn deall pwysigrwydd dethol tasgau sy'n cyfateb i'w cam datblygu, ac maent yn ymateb yn effeithiol i adborth staff er mwyn datblygu eu dysgu ymhellach. Ar adegau, mae athrawon yn gwneud gordefnydd o daflenni gwaith sy'n cyfyngu ar gyfleoedd i ddisgyblion gyflawni a chyflwyno eu dysgu yn gynyddol annibynnol.

Mae'r pennaeth, arweinwyr a staff yn adnabod cryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella yn dda. Mae hyn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod staff yn datblygu'r ddarpariaeth yn fwriadus er mwyn cefnogi'r disgyblion i gyflawni'n gyson yn eu dysgu..

Argymhellion

- A1 Sicrhau bod athrawon yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu holl fedrau mewn ystod gyfoethog ac eang o brofiadau dysgu
- A2 Datblygu cyfleoedd i ddisgyblion gyflawni a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol trwy leihau'r defnydd o daflenni gwaith

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.



Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---------------------|
| Enw'r darparwr | Ysgol Craig Y Deryn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 98 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 79 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 5.9% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 8.9% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 39.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2013 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 07/03/2016 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/07/2024 |

ⓘ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.